



TGAU

3020U20-1B

**DYDD MAWRTH, 25 MAWRTH 2025 – PRYNHAWN
TUESDAY, 25 MARCH 2025 – AFTERNOON**

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2

WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF B (Diwrnod 1)

TEST B (Day 1)

CYFATHREBU AG ERAILL

COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD

CANDIDATE'S COPY

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

NAILL AI TASG 1

GWAITH RHAN-AMSER ? GWAITH GWIRFODDOL ? PWYSIG ?

“
Mae gwneud gwaith ysgol
yn llawer mwy pwysig na
gweithio! Does dim amser
i weithio gen i!
”
SEBASTIEN



“
Rhaid i mi wneud 30 awr o waith gwirfoddol
ar gyfer Bac Cymru. Mae problem 'da fi
achos dw i'n byw mewn pentref bach a
does dim gwaith. Dw i ddim yn gallu mynd
i'r dref achos mae'r bws yn costio gormod.
Gwaith gwirfoddol = dim arian!
”
IRIS



GWAITH RHAN-AMSER? GWAITH GWIRFODDOL? PWYSIG?

“Yn fy marn i, holl bwynt
gweithio ydy i gael arian.
Mae gweithio HEB
GYFLOG yn afresymol!”

SEREN



P'UN HOFFET TI GAEL?



SUT FATH O WAITH
GWIRFODDOL SYDD AR GAEL?
helpu yn yr ysgol / ysgol gynradd
siopa i'r henoed
helpu mewn siop elusen
garddio / torri gwair
glanhau'r traeth / parc



GWAITH RHAN-AMSER? GWAITH GWIRFODDOL? PWYSIG?

“Yn fy marn i, mae gwaith rhan-amser yn bwysig achos mae’n dysgu bob math o sgiliau i chi. Dw i’n gwirfoddoli yn y clwb hoci gyda’r tîm dan 12 ar nos Wener ac yn gweithio yn y siop bapur newydd ar fore Sadwrn.

BEGW

“Does dim gwaith i’w gael yn fy ardal i.

ROB



GWAITH RHAN-AMSER ? GWAITH GWIRFODDOL ? PWYSIG ?

GWAITH RHAN-AMSER – OES DIGON O GYFLOG I'W GAEL?

“
Rydyn ni'n hoffi gweld gwaith rhan-amser a gwaith gwirfoddol ar y CV. Mae'n dangos sgiliau gwahanol yn cynnwys gweithio gyda phobl eraill a gweithio fel tîm. Mae hyn yn bwysig yn y gweithle.”

MR B RICHARDS.
RHEOLWR ARCHFARCHNAD.

“
Ar ôl TGAU?
Does dim syniad
'da fi....dosbarth
6?.....coleg?.....
gwaith?..... Bydd
rhaid aros am y
canlyniadau a
phenderfynu
bryd hynny!”

GILL



NEU

TASG 2

BETH YW CYMRU I TI ?


“
Pan dw i'n mynd ar
wyliau mae pawb yn
gwybod ble mae Cymru
oherwydd Cwpan y
Byd Pêl-droed 2022.”

JAMAL




“
Un peth gwael am
Gymru ydy'r tywydd.
Rydyn ni'n cael tywydd
braf weithiau ond dim
yn aml!”

LOIS




BETH YW CYMRU I TI ?

CYMRU – Y PETH GORAU



BETH YW CYMRU I TI ?

“
Symudais i Gymru o’r
Alban yn bump oed.
Dysgais i Gymraeg.
Nawr dw i’n dweud
mai Cymraes ydw i.
”
MORAG



BETH YW CYMRU I TI ?

“

Dw i ddim yn hoffi byw yng Nghymru
achos does dim digon o gyfleoedd gwaith.
Ar ôl TGAU a'r coleg dw i eisiau byw
dramor.

”

JAKE

“

Dw i'n anghytuno â ti. Mae digon o
gyfleoedd ar gael. Mae colegau a
phrifysgolion yng Nghymru ac mae llawer
o wahanol swyddi. Hefyd gallet ti weithio
y tu allan gyda'r Parc Cenedlaethol.

”

HUW

BETH YW CYMRU I TI ?

“ Mae popeth gyda ni yng Nghymru: traethau braf, mynyddoedd, llefydd da i siopa, adnoddau chwaraeon heb anghofio am y cestyll! Does dim rhaid mynd i wlad arall. ” BETHAN




BETH YW CYMRU I TI ?

**MAE CYMRUYN WLAD MOR
BRYDFERTH!**

**“
Wyt ti'n cytuno??
”**



**YDY'R LLUNIAU YMA O GYMRU
YN HEN FFASIWN / REALISTIG ?**



NEU TASG 3

MAE HI’N ANODD BOD YN IFANC

“

Dw i ddim yn mwynhau bod yn ifanc ar hyn o bryd – mae gormod o bwysau arna i. Mae fy rhieni a’r athrawon eisiau i mi gael graddau da yn TGAU. Does dim amser hamdden gyda fi. Dw i wedi blino!

”

MATTIE




MAE HI'N ANODD BOD YN IFANC

“

Rydw i'n poeni am fy ffrind. Mae hi'n dilyn 'dylanwadwyr' ar Instagram a TikTok. Mae hi'n meddwl bod rhaid iddi hi edrych yn berffaith. Dydy hi ddim yn bwyta llawer ac mae hi'n cynilo arian i gael 'botox' pan fydd hi'n ddeunaw!

”

NEIL



MAE HI'N ANODD BOD YN IFANC

“
Mae'n grêt bod yn ifanc!
Treulio amser gyda
ffrindiau, mynd i'r sinema,
siopa a chael hwyl. Dw i
ddim yn poeni am waith
ysgol!”
MEGAN



MAE HI'N ANODD BOD YN IFANC

“ Mae gan mam ddwy swydd er mwyn ennill digon o arian ac mae'n rhaid i mi edrych ar ôl fy chwaer fach yn aml. Dwi angen pasio TGAU er mwyn cael swydd dda i helpu fy ngheulu. ”

CARWYN

“ Dw i'n hoffi gweithio'n galed yn yr ysgol a dw i ddim eisiau mynd allan yn aml. Achos fy mod i yn wahanol dw i'n cael fy mwlio. ”

ALAN



BYDD YN
GAREDIG
I DY HUN

MAE HI'N ANODD BOD YN IFANC

Bl.11 Angen help gyda mathemateg?


Dydd Mercher 12.30 – 13.30

Ystafell M23

Paratoi ar gyfer TGAU!



PA UN I DDEWIS ???



Bl.11 Sesiwn ioga i helpu gyda phwysau gwaith.

Dydd Mercher 12.30 – 13.30

Y Gampfa

Helpu i ddelio gyda TGAU!



SUT MAE POBL IFANC YN YMLACIO?

- gwneud chwaraeon
- siarad gyda ffrindiau
- gwylio Netflix
- gwrandao ar fiwsig
- mynd am dro